# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

**Cynnig i aildrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol a gynhelir newydd a fydd yn gweithredu ar y safleoedd presennol nes bydd adeilad newydd wedi'i gymeradwyo a'i adeiladu.**

# HAF 2025

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno cael barn partïon â diddordeb ynghylch y cynnig i ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood trwy gau'r ddwy ysgol ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.

1.2. Mae'r ddogfen ymgynghori ffurfiol yn nodi gwybodaeth y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

1.3. Y ffigurau, ystadegau a deunyddiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael ar adeg ei chyhoeddi.

## 2. Pwrpas yr Asesiad


2.1. Mae Asesiad Effaith Cymunedol yn ceisio adnabod effeithiau posibl y gallai cynnig ei gael ar y boblogaeth leol. Mae pob ysgol wedi darparu gwybodaeth am eu rôl yn y gymuned a'u cysylltiadau â chyfleusterau a busnesau cymunedol.

2.2. Bydd yr Asesiad Effaith Cymunedol yn ystyried goblygiadau negyddol a chadarnhaol y cynnig.

## 3. Proffil yr Ysgolion ac Ardal

3 Mae Saltney yn dref ac yn ward etholiadol yn Sir y Fflint, wedi'i lleoli i'r dwyrain o bentref Brychdyn ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr â Dinas Caer. Roedd poblogaeth breswyl Saltney, fel y'i mesurwyd yng nghyfrifiad 2021, yn 5,140.

3.1. Yr lleoliad yr ysgolion mewn cysylltiad â'u gilydd, gyda phellter o 1.310 milltir rhyngddynt.




3.2. Mae'r ddwy ysgol gynradd yn rhoi addysg i blant rhwng 3 a 11 mlwydd oed trwy gyfrwng Saesneg.

3.3. Ym mis Medi 2024, roedd 116 o ddisgyblion llawn amser wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry a 152 o ddisgyblion llawn amser yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

3.4. Ym mis Ionawr 2025 nid oes unrhyw geisiadau cynllunio datblygu tai wedi'u cymeradwyo yn ardal Saltney.

## 4. Proffiliau Cymunedol

4.1. Ym mis Ionawr 2025, fe gwblhaodd a diweddarodd Benaethiaid pob ysgol Arolwg Effaith Cymunedol i ddangos sut mae'r ysgolion yn rhyngweithio â'u cymunedau. Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd, wedi'i chrynhoi isod, gan gynnwys strwythur llywodraethu, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleusterau lleol y mae'r ysgol yn eu defnyddio.

4.2. **Ysgol Gynradd Gymunedol Saltney Ferry**

4.3. Mae Tabl 1 yn dangos y gweithgareddau allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu darparu mewn blwyddyn nodweddiadol.

| **Gwasanaeth** | **Yn ystod y tymor neu y tu allan i'r tymor?** | **Sawl gwaith yr wythnos** | **Dyddiad sefydlu** | **Cytundeb** |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Yn Ystod y Tymor | 5 | 2010 | Wedi'i gynnal gan yr ysgol |
| Clwb Ar Ôl Ysgol | Yn Ystod y Tymor | 3 | 2010 | Wedi'i gynnal gan yr ysgol |
| Grŵp chwarae/ Gofal estynedig | Yn Ystod y Tymor | 5 | 2010 | Wedi'i gynnal gan Grŵp Chwarae Small Steps Saltney |

4.4. Mae Tabl 2 isod yn dangos y cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir gan yr ysgol mewn blwyddyn nodweddiadol.

| **Cyfleuster** | **Pryd mae'r weithgaredd yn cael ei gynnal?** | **Amlder** | **Dyddiad sefydlu** | **Cytundeb** |
|---|---|---|---|---|
| Llyfrgell | Drwy gydol y flwyddyn | Yn ôl y gofyn | 2010 | Dim |
| Nofio | Yn Ystod y Tymor | Dysgu fesul bloc sefydlog | 2010 | Dim |
| Airbus AFC | Yn Ystod y Tymor | 2 y flwyddyn | 2010 | Dim |
| Inflatabubble | Yn Ystod y Tymor | 1 gwaith y flwyddyn | 2024 | Dim |
| Parc Brychdyn | Yn Ystod y Tymor | Yn ôl y gofyn | 2010 | Dim |
| Parc chwarae lleol | Yn Ystod y Tymor | Yn ôl y gofyn | 2010 | Dim |
| Eglwys y Santes Fair | Yn Ystod y Tymor | 2 y flwyddyn | 2010 | Dim |

4.5. Mae Tabl 3 y dangos cyfleusterau'r ysgol y mae grwpiau lleol yn eu ddefnyddio.

| **Grŵp Defnyddwyr** | **Pryd mae'r weithgaredd yn cael ei gynnal?** | **Amlder** | **Dyddiad sefydlu** | **Cytundeb** |
|---|---|---|---|---|
| Digwyddiadau Cymunedol | Yn Ystod y Tymor | 1 y tymor | 2010 | Dim |
| Meithrinfa Small Steps | Yn Ystod y Tymor | Cyd-fynd â thymhorau ysgol | | |

4.6. Mae Tabl 4 yn dangos y cyfleusterau cymunedol sydd wedi'u lleoli ger yr ysgol.

| Enw'r Cyfleuster/Busnes | Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg | Dyddiad dechrau |
|---|---|---|
| Cwt Sgowtiaid | Saesneg | Sefydledig |
| Eglwys y Santes Fair | Saesneg | Sefydledig |
| Ysgol Uwchradd Dewi Sant | Saesneg | Sefydledig |
| Parc Manwerthu Brychdyn | Saesneg | Sefydledig |

4.7. Mae Tabl 5 yn dangos y gweithgareddau cymunedol sydd wedi'u lleoli ger yr ysgol.

| Cyfleuster | Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg | Dyddiad dechrau |
|---|---|---|
| Sgowtiaid/Beavers | Saesneg | Anhysbys |
| Amrywiaeth o glybiau chwaraeon – pêl-droed, golff, bocsio, dringo | Saesneg | Anhysbys |
| Inflatabubble | Saesneg | 2019 |

4.8. Mae Tabl 6 yn dangos y darparwyr gofal plant sydd ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

| Darparwr | Iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol? | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grŵp Chwarae Small Steps | Saesneg | Cylch chwarae | Ie | Yn Ystod y Tymor | 5 yr wythnos | Anhysbys |
| Clwb Brecwast | Dwyieithog | Neuadd yr Ysgol | Na | Yn Ystod y Tymor | 5 yr wythnos | Anhysbys |
| Clwb Ar Ôl Ysgol | Dwyieithog | Safle'r ysgol | Na | Yn Ystod y Tymor | 3 yr wythnos | Anhysbys |

4.9. **Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

4.10. Mae Tabl 7 yn dangos y gweithgareddau allgyrsiol y mae'r ysgol yn eu darparu mewn blwyddyn nodweddiadol.

| Gwasanaeth | Yn ystod y tymor neu y tu allan i'r tymor? | Sawl gwaith yr wythnos | Dyddiad sefydlu | Cytundeb |
|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Yn Ystod y Tymor | 5 | Anhysbys | Anhysbys |
| Cyfle Cynnar | Yn Ystod y Tymor | 5 | Anhysbys | Anhysbys |
| Grŵp Chwarae a Mwy | Yn Ystod y Tymor | 5 | Anhysbys | Cytundeb/Prydles Llogi Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Estynedig Woody Wraparound | Yn Ystod y Tymor | 5 | Anhysbys | Cytundeb/Prydles Llogi Parhaus |
| Clybiau allgyrsiol | Yn Ystod y Tymor | 1-2 o sesiynau bob wythnos | Anhysbys | Dim - cael ei gynnal gan yr ysgol |

4.11. Mae Tabl 8 isod yn dangos y cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir gan yr ysgol mewn blwyddyn nodweddiadol.

| **Cyfleuster** | **Pryd mae'r weithgaredd yn cael ei gynnal?** | **Amlder** | **Dyddiad sefydlu** | **Cytundeb** |
|---|---|---|---|---|
| Parciau Lleol | Yn Ystod y Tymor | Yn ôl y gofyn | Amherthnasol | Dim |
| Canolfan Gymunedol | Yn Ystod y Tymor | Yn ôl y gofyn | Amherthnasol | Dim |
| Ysgol Uwchradd Dewi Sant | Yn Ystod y Tymor | Yn ôl y gofyn | Amherthnasol | Dim |

4.12. Mae Tabl 9 y dangos cyfleusterau'r ysgol y mae grwpiau lleol yn eu ddefnyddio.

| **Grŵp Defnyddwyr** | **Pryd mae'r weithgaredd yn cael ei gynnal?** | **Amlder** | **Dyddiad sefydlu** | **Cytundeb** |
|---|---|---|---|---|
| Dim | | | | |

4.13. Mae Tabl 10 yn dangos y cyfleusterau cymunedol sydd wedi'u lleoli ger yr ysgol.

| **Cyfleuster** | **Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg** | **Dyddiad dechrau** |
|---|---|---|
| Parciau Lleol | Amherthnasol | Anhysbys |
| Canolfan Gymunedol | Amherthnasol | Anhysbys |
| Ysgol Uwchradd Dewi Sant | Saesneg | Anhysbys |
| Clwb Pêl-droed Tref Bwcle | Saesneg | Anhysbys |
| Neuadd Douglas Place | Amherthnasol | Anhysbys |
| Clwb Gymnasteg Saltney | Amherthnasol | Anhysbys |
| Eglwys Fethodistaidd Saltney | Amherthnasol | Anhysbys |

| | | |
|---|---|---|
| Eglwys Sant Mark | Saesneg | Anhysbys |

4.14. Mae Tabl 11 yn dangos y gweithgareddau cymunedol sydd wedi'u lleoli ger yr ysgol.

| Cyfleuster | Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg | Dyddiad dechrau |
|---|---|---|
| Stiwdio Ioga/Dosbarthiadau Ffitrwydd | Amherthnasol | Anhysbys |
| Warrior Fitness | Amherthnasol | Anhysbys |
| Inflatabubble | Amherthnasol | Anhysbys |
| Clwb Gymnasteg Saltney | Amherthnasol | Anhysbys |
| Canolfan Gymuned - amrywiaeth o weithgareddau | Amherthnasol | Anhysbys |
| Whizz Kids | Amherthnasol | Anhysbys |
| Nofio Aska | Amherthnasol | Anhysbys |

4.15. Mae Tabl 12 yn dangos y darparwyr gofal plant sydd ar gael yn yr ysgol, neu gerllaw:

| Darparwr | Iaith | Lleoliad | Yn annibynnol o'r ysgol? | Pryd mae gofal plant ar gael | Amlder | Dyddiad sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Clwb Brecwast | Saesneg | Ysgol | Na | Yn Ystod y Tymor | 5 yr wythnos | Anhysbys |
| Cyfle Cynnar | Saesneg | Ysgol | Na | Yn Ystod y Tymor | 5 yr wythnos | Anhysbys |
| Grŵp Chwarae a Mwy | Saesneg | Ysgol | Ie | Yn Ystod y Tymor | 5 yr wythnos | Anhysbys |
| Gofal Estynedig Woody Wraparound | Saesneg | Ysgol | Ie | Yn Ystod y Tymor | 5 yr wythnos | Anhysbys |

## 5. Effeithiau Posibl

5.1. Mae effaith yr opsiynau wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun nifer o ffactorau, fel y gwelir yn y tabl isod. Os rhagwelir y bydd yr opsiwn o fudd i gymuned neu grŵp o fudd-ddeiliaid caiff ei nodi fel effaith cadarnhaol, ond os oes posibl i'r opsiwn gael effaith andwyol ar ardal neu barti â chysylltiad, caiff ei nodi fel effaith negyddol Mae opsiynau nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ffactor wedi'u nodi fel rhai niwtral.

5.2. Mae mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a ragwelir wedi'u cynnwys yn y tabl hefyd.

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | |
|---|---|---|---|
| **Ffactorau i'w hystyried** | **Y sefyllfa bresennol** | **Un Ysgol Ardal** | **Sylwadau a Mesurau i Leihau Effeithiau Negyddol** |
| Mynediad at ddarpariaeth o'r un dynodiad Ffydd | Niwtral | Niwtral | Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cynradd cymunedol ar hyn o bryd a byddai'r ysgol ardal unedig arfaethedig newydd yn ysgol gynradd gymunedol hefyd. |
| Mynediad at ddarpariaeth o'r un cyfrwng iaith | Niwtral | Niwtral | Caiff addysg ei ddarparu trwy gyfrwng Saesneg yn y ddwy ysgol a byddai'n parhau felly yn yr ysgol ardal cyfun newydd. |
| Yr effaith ar y gymuned | Niwtral | Niwtral | Mae pob ysgol yn darparu cyfleusterau ar gyfer darpariaeth grwpiau chwarae sy'n cael eu rhedeg yn allanol o'r ysgol eu hunain. Byddai angen ystyried y cyfleusterau hyn fel rhan o'r ysgol unedig newydd er mwyn sicrhau bod gofal plant i blant cyn-ysgol yn parhau ac o bosibl yn cael ei gynyddu. |
| Effaith ar Fusnesau Lleol | Niwtral | Niwtral | Bydd yr ysgol unedig newydd o fewn ardal Saltney sy'n golygu na fydd busnesau lleol yn cael eu heffeithio gan gau'r ddwy ysgol. |
| Effaith ar ysgolion cyfagos | Niwtral | Niwtral | Bydd gan yr ysgol gyfun ddigon o le i gynnwys pob disgybl sydd yn mynychu'r ddwy ysgol ar hyn o bryd. |
| Effaith ar ddisgyblion | Niwtral | Niwtral | Fe allai Opsiwn 2 effeithio ar ddisgyblion petai'n cael ei weithredu gan olygu newid i'w athrawon, amgylchedd dysgu, grwpiau ffrindiau a thaith i'r ysgol.<br><br>Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi cael ei lunio ac mae'r effeithiau posibl ar ddisgyblion wedi cael eu hystyried. |

| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | |
|---|---|---|---|
| **Ffactorau i'w hystyried** | **Y sefyllfa bresennol** | **Un Ysgol Ardal** | **Sylwadau a Mesurau i Leihau Effeithiau Negyddol** |
| Effaith ar Rieni/Gofalwyr a Theuluoedd | Niwtral | Niwtral | Byddai cael gwared ar ysgol o un o'r cymunedau yn newid yr amgylchedd cymdeithasol a'r modd y mae grwpiau presennol o gyfeillion yn rhyngweithio.<br><br>Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn cynnwys yr effeithiau posibl ar rieni/gofalwyr. |
| Effaith ar Drefniadau Teithio Dysgwyr | Niwtral | Niwtral | Os bydd Opsiwn 2 yn cael ei weithredu, efallai y bydd rhai disgyblion yn gweld cynnydd yn y pellter y maent yn ei deithio i'r ysgol – yn enwedig y rhai sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw blant yn y naill ysgol na'r llall wedi'u hasesu i fodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim.<br><br>Mae Asesiad o Effaith ar Gludiant wedi cael ei lunio i edrych ar effaith posibl y byddai gweithredu Opsiwn 2 yn ei gael ar drefniadau cludiant presennol. |
| Effaith ar ddemograffeg y gymuned | Niwtral | Niwtral | Bydd colli ysgol o unrhyw gymuned yn cael effaith negyddol ar y gymuned honno. Fodd bynnag, gan y bydd yr ysgol gymunedol newydd yn dal i fod yn ardal Saltney, asesir y bydd hyn yn gyfle i ddod â chymuned gyfan Saltney at ei gilydd. |

## 6. Casgliadau

6.1. Petai Opsiwn 1 yn cael ei ddewis, sef parhau â’r sefyllfa bresennol, yna bychan iawn, os o gwbl fyddai’r effaith ar y cymunedau. Byddai Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ill dwy yn cadw eu hunaniaeth unigol ac yn parhau fel dwy ysgol unigol ar wahân.

6.2. Os bydd Opsiwn 2 yn cael ei weithredu mae effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu nodi. Yn ystod cam 1, sef y cyfnod y byddai’r ysgolion yn uno i ffurfio un ysgol ardal newydd a fyddai’n gweithredu ar y ddau safle presennol, byddai effeithiau negyddol yn ddibwys.

6.3. Fodd bynnag, cydnabyddir pan fydd Cam 2 wedi'i gwblhau, lle bydd yr ysgol ardal newydd yn cael ei hadeiladu ar dir a feddiannir ar hyn o bryd gan Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, y bydd effeithiau cadarnhaol a negyddol i'w gweld. Bydd effaith fwy ar y plant a'r teuluoedd hynny sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gynradd Saltney Ferry oherwydd y pellter teithio cynyddol.

6.4. Byddai cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry a Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood yn cael effaith negyddol gyfyngedig ar ddefnydd cymunedol. Ar hyn o bryd, mae'r defnydd cymunedol yn cynnwys darpariaeth cyn-ysgol a reolir yn allanol. Y bwriad yw y byddai darpariaeth cyn-ysgol yn cael ei chynnwys yn yr ysgol ardal newydd gyda'r cyfle i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.

6.5. Ar ôl symud i un safle, fe allai disgyblion gael athrawon newydd ac fe allai mwy o blant fod yn eu dosbarth. Er y bydd rhai yn bryderus am y newidiadau hyn, byddai cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i leihau pryderon a hyrwyddo integreiddio.

6.6. Mae yna effeithiau cadarnhaol hefyd oherwydd fe fydd plant yn elwa o gyfleusterau gwell yn dilyn buddsoddiad gan yr Awdurdod Lleol ac yn ei dro, dylai hyn helpu i gynyddu safon yr addysg y mae plant yn ei dderbyn. Mae yna gyfle hefyd i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr ddatblygu cyfeillgarwch newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.